**CYNLLUN GOSTYNGIADAU'R DRETH GYNGOR: ADRODDIAD YSTADEGOL 2024-25**

# Crynodeb Gweithredol

Ar 1 Ebrill 2013, cafodd Budd-dal y Dreth Gyngor (CTB) yng Nghymru ei ddisodli gan Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (CTRS), a chafodd aelwydydd cymwys eu trosglwyddo'n awtomatig i'r cynllun newydd. Roedd Rheoliadau CTRS yn seiliedig i raddau helaeth ar yr hen reolau ar gyfer Budd-dal y Dreth Gyngor. Roedd hyn yn sicrhau bod aelwydydd yn cadw eu hawl i gael cymorth i gyflawni eu hatebolrwydd i dalu'r dreth gyngor. Rydym wedi diwygio'r Rheoliadau gwreiddiol bob blwyddyn ers hynny er mwyn cynnal yr hawliau hyn.

Rhoesom £244 miliwn i'r awdurdodau lleol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2013 i 2014 i'w galluogi i roi'r cymorth llawn y mae gan bob aelwyd gymwys yr hawl i'w gael. Rydym wedi cynnal y trefniadau ariannu hyn bob blwyddyn ers hynny.

Mae'r Adroddiad Blynyddol hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am roi CTRS ar waith yng Nghymru rhwng mis Ebrill 2024 a mis Mawrth 2025. Mae hyn yn helpu i sicrhau tryloywder mewn maes y mae cyllid sylweddol yn parhau i gael ei ddyrannu iddo.

# Y Prif Ffigurau

- Roedd 256.489 o aelwydydd yng Nghymru yn cael gostyngiad yn y dreth gyngor (CTR) ym mis Mawrth 2025, o'i gymharu â 258,685 ym mis Mawrth 2024, sef gostyngiad o 2,196 o achosion (0.8%).

- Roedd cyfanswm gwerth y gostyngiadau a roddwyd drwy'r CTRS yng Nghymru rhwng 2023 a 2025 yn £322.9 miliwn, o'i gymharu â £301.1 miliwn yn y flwyddyn ariannol flaenorol, sef cynnydd o £21.8 (7.2%).

- Roedd 100,819 o aelwydydd pensiynwyr yng Nghymru yn cael CTR ym mis Mawrth 2025, o'i gymharu â 101,563 ym mis Mawrth 2024. Mae hyn yn golygu bod llwyth achosion pensiynwyr yn cynnwys 744 yn llai o achosion (0.7 %).

- Roedd 155,670 o aelwydydd oedran gweithio yng Nghymru yn cael CTR ym mis Mawrth 2025, o'i gymharu â 157,122 ym mis Mawrth 2024, sef gostyngiad o 1,452 o achosion (0.9%).

- O blith y 256,489 o aelwydydd yng Nghymru a oedd yn cael CTR, nid oedd 216,275 (84.3%) yn talu unrhyw dreth gyngor o gwbl.

- Ym mis Mawrth 2025, roedd 35% o'r aelwydydd a oedd yn cael CTR yn achosion wedi'u pasbortio o fudd-daliadau etifeddol , ac 16% yn achosion safonol heb eu pasbortio. Roedd 49% o aelwydydd a gafodd CTR yn cael Credyd Cynhwysol.

- Yng Nghymru, roedd 85.2% o'r aelwydydd a oedd yn cael CTR yn byw mewn eiddo ym mandiau A i C ym mis Mawrth 2025.

- Cafodd Tribiwnlys Prisio Cymru 21 apêl newydd yn ymwneud â CTRS rhwng mis Ebrill 2023 a mis Mawrth 2025, o’i gymharu â 26 yn y flwyddyn ariannol flaenorol.

# Y Cefndir

Yn yr Adolygiad o Wariant yn 2010, cyhoeddodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig ei bwriad i ddiddymu Budd-dal y Dreth Gyngor. Trosglwyddodd y cyfrifoldeb dros ddatblygu trefniadau newydd i'r awdurdodau lleol yn Lloegr. Ar yr un pryd, cyhoeddodd gynlluniau i drosglwyddo cyllid i'r llywodraethau datganoledig yng Nghymru a'r Alban, gan ddisgwyl y byddent yn sefydlu trefniadau newydd. Cafodd y cyllid i roi cymorth ar gyfer y dreth gyngor ei drosglwyddo o gyllidebau seiliedig ar alw i gyllidebau sefydlog, gan ei chwtogi 10%.

Ar 1 Ebrill 2013, cafodd CTB yng Nghymru ei ddisodli gan CTRS. Cafodd aelwydydd cymwys eu trosglwyddo'n awtomatig i'r cynllun newydd. Roedd y rheoliadau a gyflwynwyd gennym yn 2013 yn seiliedig i raddau helaeth ar yr hen reolau ar gyfer CTB i gynnal yr hawl i gymorth. Rhoddwyd rhywfaint o ddisgresiwn lleol i'r awdurdodau lleol hefyd, sy'n galluogi pob un ohonynt i ystyried anghenion a blaenoriaethau eu hardal leol.

Darparwyd £244 miliwn yn y setliad llywodraeth leol ar gyfer CTRS ar gyfer y flwyddyn ariannol 2013 i 2014. Cafodd cyllideb sefydlog o £222 miliwn ei throsglwyddo i Gymru o Lywodraeth y DU. Rhoddodd Llywodraeth Cymru £22 miliwn ychwanegol i helpu'r awdurdodau lleol i barhau i roi'r cymorth llawn y mae gan bob aelwyd gymwys yr hawl i'w gael. Rydym wedi parhau i gynnal y trefniadau hyn bob blwyddyn ers hynny. Rydym hefyd wedi parhau i gynnal yr holl hawliau i gael cymorth o dan y cynllun. Mae newidiadau yn niferoedd llwythi achosion yn adlewyrchu newidiadau yn nifer yr aelwydydd sy'n ymgeisio ac yn bodloni'r meini prawf ar gyfer cymorth.

Mae'r adroddiad ystadegol hwn yn darparu data diwedd blwyddyn ar gyfer Cymru. Mae'n cynnwys llwythi gwaith a gwerth gostyngiadau rhwng mis Ebrill 2024 a mis Mawrth 2025 yn seiliedig ar ddata rheoli achosion. Mae hefyd yn darparu dadansoddiad o'r tueddiadau a'r patrymau ers i CTRS gael ei gyflwyno. Mae'r holl ffigurau sy'n ymwneud â gwerth gostyngiadau wedi'u talgrynnu i'r £1,000 agosaf.

Mae Atodiad A yn darparu ystadegau ychwanegol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2024-2025.

## CTRS yng Nghymru

Daw'r data o offeryn modelu a rhagamcanu sy'n tynnu allan gwybodaeth fanwl am achosion CTRS o systemau refeniw a budd-daliadau craidd awdurdodau lleol Cymru. Cymerir cipluniau o lwyth achosion CTRS yn fisol a defnyddir yr wybodaeth i amcangyfrif cyfanswm gwerth y gostyngiadau ar gyfer y flwyddyn. Mae'r wybodaeth yn rhoi manylion cyfanswm y llwyth achosion ym mis Mawrth 2025 a gwerth y dyfarniadau a ddarparwyd yn y flwyddyn ariannol o fis Ebrill 2024 i fis Mawrth 2025. Mae llwyth achosion yn cyfeirio at aelwydydd yn hytrach nag unigolion. Mewn geiriau eraill, mae rhai achosion yn cyfeirio at unigolyn, ac achosion eraill yn cyfeirio at gwpl neu deulu.

Mae Tabl 1 yn dangos mai 256,489 oedd cyfanswm y llwyth achosion ym mis Mawrth 2025. Mae hyn yn cymharu â 258,685 ym mis Mawrth 2024. Felly, mae’r llwyth achosion wedi gostwng 2,196 o achosion (0.8%).

Mae llwyth achosion 18 o awdurdodau lleol wedi lleihau. Ynys Môn welodd y gostyngiad canrannol mwyaf yn y llwyth achosion (2.9%).

Gwelodd pedwar awdurdod lleol gynnydd mewn llwyth achosion gyda'r cynnydd canrannol mwyaf ym Mhowys (1.5%).

**Tabl 1: Llwyth Achosion CTRS**

| Awdurdod lleol | **Mawrth 2024** | **Mawrth 2025** | **% o newid** |
|---|---:|---:|---:|
| Ynys Môn | 5,524 | 5,366 | -2.9 |
| Gwynedd | 8,091 | 7,992 | -1.2 |
| Conwy | 9,586 | 9,564 | -0.2 |
| Sir Ddinbych | 8,786 | 8,742 | -0.5 |
| Sir y Fflint | 10,221 | 10,137 | -0.8 |
| Wrecsam | 11,057 | 10,828 | -2.1 |
| Powys | 8,994 | 9,128 | 1.5 |
| Ceredigion | 5,152 | 5,161 | 0.2 |
| Sir Benfro | 8,960 | 9,070 | 1.2 |
| Sir Gaerfyrddin | 15,248 | 15,206 | -0.3 |
| Abertawe | 21,076 | 20,936 | -0.7 |
| Castell-nedd Port Talbot | 15,439 | 15,382 | -0.4 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 12,426 | 12,130 | -2.4 |
| Bro Morgannwg | 8,951 | 8,937 | -0.2 |
| Rhondda Cynon Taf | 23,398 | 23,168 | -1.0 |
| Merthyr Tudful | 5,778 | 5,791 | 0.2 |
| Caerffili | 16,034 | 15,992 | -0.3 |
| Blaenau Gwent | 8,269 | 8,201 | -0.8 |
| Torfaen | 9,488 | 9,237 | -2.6 |
| Sir Fynwy | 5,478 | 5,398 | -1.5 |
| Casnewydd | 12,217 | 12,192 | -0.2 |
| Caerdydd | 28,512 | 27,931 | -2.0 |
| **Cymru** | **258,685** | **256,489** | **-0.8** |

Ffynhonnell: Datatank Connect

Gwerth y gostyngiad yw faint y mae'r atebolrwydd i dalu'r dreth gyngor wedi'i gostwng ar gyfer aelwydydd sy'n cael CTR. Mae'r awdurdodau lleol yn cael cyllid i ddisodli incwm y dreth gyngor y byddent yn ei gael fel arall gan aelwydydd sy'n gymwys i gael cymorth ac sy'n gwneud cais amdano. Mae hynny'n golygu bod aelwydydd cymwys yn cael bil treth gyngor llai neu nad oes ganddynt unrhyw fil i'w dalu.

Cyfanswm gwerth y gostyngiadau a ddarparwyd i holl aelwydydd Cymru rhwng mis Ebrill 2024 a mis Mawrth 2025 oedd £322.9 miliwn, o'i gymharu â £301.1 miliwn yn y flwyddyn ariannol flaenorol. Mae hyn yn gynnydd o £21.8 miliwn (7.2%).

Bu cynnydd yng ngwerth y gostyngiadau a ddarparwyd ym mhob awdurdod lleol. Yn Sir Benfro yr oedd y cynnydd mwyaf (12.7%), ac yn Nhorfaen y cynnydd lleiaf (3.2%). Mae Tabl 2 yn dangos ffigurau ar gyfer cyfanswm gwerth y gostyngiadau yn ôl awdurdod lleol.

**Tabl 2: Cyfanswm gwerth dyfarniadau CTRS yng Nghymru**

| Awdurdod lleol | **Cyfanswm 2023-24 (£ mil)** | **Cyfanswm 2024-25 (£ mil)** | **% o newid** |
|---|---:|---:|---:|
| Ynys Môn | 6,264 | 6,617 | 5.6 |
| Gwynedd | 9,692 | 10,502 | 8.4 |
| Conwy | 11,706 | 12,785 | 9.2 |
| Sir Ddinbych | 10,724 | 11,627 | 8.4 |
| Sir y Fflint | 12,275 | 13,227 | 7.8 |
| Wrecsam | 12,433 | 13,460 | 8.3 |
| Powys | 11,146 | 12,201 | 9.5 |
| Ceredigion | 6,414 | 7,054 | 10.0 |
| Sir Benfro | 9,819 | 11,063 | 12.7 |
| Sir Gaerfyrddin | 18,103 | 19,494 | 7.7 |
| Abertawe | 23,812 | 25,323 | 6.3 |
| Castell-nedd Port Talbot | 18,636 | 20,174 | 8.3 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 15,450 | 16,524 | 7.0 |
| Bro Morgannwg | 11,394 | 12,233 | 7.4 |
| Rhondda Cynon Taf | 25,233 | 26,665 | 5.7 |
| Merthyr Tudful | 6,753 | 7,326 | 8.5 |
| Caerffili | 16,318 | 17,545 | 7.5 |
| Blaenau Gwent | 9,712 | 10,274 | 5.8 |
| Torfaen | 10,264 | 10,588 | 3.2 |
| Sir Fynwy | 7,389 | 7,822 | 5.9 |
| Casnewydd | 13,055 | 14,214 | 8.9 |
| Caerdydd | 34,529 | 36,221 | 4.9 |
| **Cymru** | **301,121** | **322,938** | **7.2** |

Ffynhonnell: Datatank Connect

Bydd cyfanswm gwerth y gostyngiadau a ddarperir yn cael eu heffeithio gan godiadau blynyddol yn y dreth gyngor ym mhob awdurdod lleol.

Mae Tabl 3 yn rhoi gwybodaeth am y cynnydd yn y dreth gyngor yn ôl awdurdod lleol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2024 i 2025.

**Tabl 3: Cynnydd yn y dreth gyngor ar gyfer 2024 i 2025**

| Awdurdod lleol | **Treth Gyngor Band D ar gyfartaledd 2024 i 2025 (£)** | **Cynnydd blynyddol (%)** |
|---|---:|---:|
| Ynys Môn | 1,982 | 8.6 |
| Gwynedd | 2,161 | 8.7 |
| Conwy | 2,136 | 8.8 |
| Sir Ddinbych | 2,090 | 8.4 |
| Sir y Fflint | 2,062 | 8.2 |
| Wrecsam | 2,014 | 9.3 |
| Powys | 2,054 | 7.3 |
| Ceredigion | 2,104 | 10.3 |
| Sir Benfro | 1,885 | 11.2 |
| Sir Gaerfyrddin | 2,048 | 7.3 |
| Abertawe | 2,018 | 6.6 |
| Castell-nedd Port Talbot | 2,281 | 8.0 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 2,245 | 9.4 |
| Bro Morgannwg | 1,973 | 7.0 |
| Rhondda Cynon Taf | 2,082 | 5.6 |
| Merthyr Tudful | 2,329 | 8.1 |
| Caerffili | 1,813 | 7.1 |
| Blaenau Gwent | 2,303 | 5.6 |
| Torfaen | 1,952 | 5.4 |
| Sir Fynwy | 2,111 | 7.7 |
| Casnewydd | 1,856 | 8.3 |
| Caerdydd | 1,827 | 6.5 |
| **Cymru** | **2,024** | **7.7** |

Ffynhonnell: Ffynhonnell: Ffurflenni Gofyniad Cyllidebol oddi wrth awdurdodau lleol

Mae Tabl 4 yn dangos bod 18.1% o aelwydydd ar draws Cymru sy'n agored i dalu’r dreth gyngor yn cael gostyngiad ym mis Mawrth 2025.

Mae'r ffigur hwn yn amrywio o un awdurdod lleol i’r llall. Gan Sir Fynwy y mae'r nifer lleiaf o achosion o ostyngiadau o'i gymharu â'r holl aelwydydd sy'n atebol i dalu’r dreth gyngor (12.6%), a Blaenau Gwent sydd â'r llwyth achosion mwyaf o'i gymharu â'r holl aelwydydd sy'n atebol i dalu’r dreth gyngor (25.5%).

**Tabl 4: Achosion CTRS o'u cymharu ag aelwydydd sy'n atebol i dalu’r dreth gyngor**

| Awdurdod lleol | **Nifer yr aelwydydd atebol 2024 i 2025 (a)** | **Llwyth achosion CTRS Mawrth 2025 (b)** | **Achosion o'u cymharu ag aelwydydd atebol (%)** |
|---|---:|---:|---:|
| Ynys Môn | 34,438 | 5,366 | 15.6 |
| Gwynedd | 57,861 | 7,992 | 13.8 |
| Conwy | 45,183 | 8,742 | 17.1 |
| Sir Ddinbych | 44,843 | 8,786 | 19.6 |
| Sir y Fflint | 69,192 | 10,137 | 14.7 |
| Wrecsam | 59,621 | 10,828 | 18.2 |
| Powys | 64,453 | 9,128 | 14.2 |
| Ceredigion | 33,869 | 5,161 | 15.2 |
| Sir Benfro | 60,882 | 9,070 | 14.9 |
| Sir Gaerfyrddin | 87,167 | 15,206 | 17.4 |
| Abertawe | 108,850 | 20,936 | 19.2 |
| Castell-nedd Port Talbot | 64,691 | 15,382 | 23.8 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 64,729 | 12,130 | 18.7 |
| Bro Morgannwg | 60,264 | 8,937 | 14.8 |
| Rhondda Cynon Taf | 107,279 | 23,168 | 21.6 |
| Merthyr Tudful | 26,770 | 5,791 | 21.6 |
| Caerffili | 78,675 | 15,992 | 20.3 |
| Blaenau Gwent | 32,192 | 8,201 | 25.5 |
| Torfaen | 42,386 | 9,237 | 21.8 |
| Sir Fynwy | 42,992 | 5,398 | 12.6 |
| Casnewydd | 68,999 | 12,192 | 17.7 |
| Caerdydd | 150,350 | 27,931 | 18.6 |
| **Cymru** | **1,416,847** | **256,489** | **18.1** |

(a) Ffynhonnell: Ffurflenni Anheddau sy'n Talu'r Dreth Gyngor (CT1) oddi wrth yr awdurdodau lleol
(b) Ffynhonnell: Datatank Connect

## Tueddiadau a Phatrymau

Yn ogystal â ffigurau cyffredinol am lwyth achosion a gostyngiadau, mae'r arf modelu a rhagamcanu hefyd yn rhoi gwybodaeth gryno am nodweddion amrywiol yr aelwydydd sy'n cael gostyngiad y dreth gyngor.

### Llwyth achosion cyffredinol

Mae Ffigur 1 yn dangos tuedd y llwyth achosion ers i Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor gael ei gyflwyno ym mis Ebrill 2013.

**Ffigur 1: Llwyth achosion CTRS yng Nghymru, Mai 2013 i Fawrth 2025**




Rhwng mis Ebrill 2013 a dechrau mis Ebrill 2020 mae'r llwyth achosion wedi gostwng dros 50,000. Oherwydd effaith y pandemig, aeth y duedd hon i'r cyfeiriad arall dros dro yn ystod y cyfnod cyntaf o gyfyngiadau symud ac erbyn mis Awst 2020 roedd lefelau wedi cynyddu i 285,553, yr uchaf ers mis Tachwedd 2017. Dechreuodd y llwyth achosion ostwng wrth i'r cyfyngiadau gael eu llacio ac ym mis Mawrth 2025, 256,489 oedd cyfanswm y llwyth achosion. Mae hyn yn ostyngiad o 20% o'i gymharu â mis Mai 2013.

Mae Tabl 5 yn dangos y gostyngiad yn ôl oedran gweithio ac aelwydydd oedran pensiwn.

**Tabl 5: Llwyth achosion y Cynlluniau Gostyngiadau rhwng mis Mai 2013 a mis Mawrth 2025**

| Aelwyd | Mai 2013 | Mawrth 2025 | % y gostyngiad |
|---|---|---|---|
| Oedran gweithio | 186,759 | 155,670 | 17% |
| Oedran pensiwn | 135,204 | 100,819 | 25% |
| Cyfanswm | 321,963 | 256,489 | 20% |

Ers 2013 mae llwyth achosion cyffredinol aelwydydd pensiynwyr ledled Cymru wedi gostwng 25%. Gallai hyn fod yn rhannol oherwydd newidiadau yn oedran pensiwn y wladwriaeth ar gyfer dynion a menywod. Cynyddwyd yr oedran pensiwn i 66 ar gyfer dynion a menywod ym mis Hydref 2020. Mae'n bosibl hefyd y bu gostyngiad yng nghyfran y pensiynwyr sy'n cael gostyngiad yn y dreth gyngor am reswm arall. Gallai hyn, er enghraifft, gynnwys pensiynwyr newydd sydd ag incwm uwch sy'n fwy tebygol o fod yn berchen-feddianwyr ac yn llai tebygol o wneud cais am ostyngiad.

Mae Tabl A1 yn Atodiad A yn rhoi'r ffigurau misol ar gyfer y llwyth achosion byw ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ebrill 2024 a mis Mawrth 2025 yn ôl awdurdod lleol. Mae'n rhoi dadansoddiad pellach yn ôl llwythi achosion oedran gweithio ac oedran pensiwn.

**Llwyth achosion y Cynllun Gostyngiadau yn ôl oedran**

Mae Ffigur 6 yn nodi canran yr aelwydydd sy'n cael CTR yn ôl grŵp oedran ac awdurdod lleol.

- Llwyth achosion CTR Caerdydd sydd â'r gyfran uchaf o aelwydydd oedran gweithio (67.2%) ac felly y gyfran isaf o aelwydydd oedran pensiwn (32.8%).

- Llwyth achosion CTR Gwynedd ac Ynys Môn sydd â'r cyfrannau uchaf o aelwydydd pensiynwyr (47.5%) a'r cyfrannau isaf o aelwydydd oedran gweithio (52.5%).

**Tabl 6: cyfran yr aelwydydd sy'n cael gostyngiad y dreth gyngor yn ôl grŵp oedran ym mis Mawrth 2025**

| Awdurdod Lleol | Llwyth Achosion Oedran Gweithio | Llwyth Achosion Oedran Pensiwn |
|---|---|---|
| Caerdydd | 67.2% | 32.8% |
| Casnewydd | 64.7% | 35.3% |
| Castell-nedd Port Talbot | 63.8% | 36.2% |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 63.6% | 36.4% |
| Rhondda Cynon Taf | 63.3% | 36.7% |
| Abertawe | 62.4% | 37.6% |
| Torfaen | 62.3% | 37.7% |
| Merthyr Tudful | 62.4% | 37.6% |
| Wrecsam | 61.0% | 39.0% |
| Blaenau Gwent | 60.4% | 39.6% |
| Bro Morgannwg | 60.4% | 39.6% |

| | | |
|---|---|---|
| Ceredigion | 59.2% | 40.8% |
| Caerffili | 59.0% | 41.0% |
| Sir Gaerfyrddin | 58.5% | 41.5% |
| Sir Ddinbych | 57.3% | 42.7% |
| Sir Fynwy | 56.1% | 43.9% |
| Powys | 55.6% | 44.4% |
| Conwy | 55.1% | 44.9% |
| Sir y Fflint | 55.3% | 44.7% |
| Sir Benfro | 54.9% | 45.1% |
| Ynys Môn | 53.6% | 46.4% |
| Gwynedd | 52.5% | 47.5% |

Ffynhonnell: Datatank Connect

Mae Tabl A2 yn Atodiad A yn rhoi'r ffigurau ar gyfer y llwyth achosion yn ôl grŵp oedran gan ddangos y newid canrannol rhwng mis Mawrth 2024 a mis Mawrth 2025.

Ym mis Mawrth 2025, roedd 155,670 o achosion oedran gweithio. Mae hyn yn ostyngiad o 1,452 o achosion o'i gymharu â mis Mawrth 2024 (0.9%). Yn Ynys Môn yr oedd y gostyngiad mwyaf (5.1%), ac ym Mhowys yr oedd y cynnydd mwyaf (2.6%).

Roedd 100,819 o aelwydydd pensiynwyr yn cael gostyngiad yn y dreth gyngor ym mis Mawrth 2025 o'i gymharu â 101,563 ym mis Mawrth 2024. Mae hyn yn ostyngiad o 0.7%. Ym Mhen-y-bont ar Ogwr yr oedd y gostyngiad mwyaf (4.4%), ac yn Sir Benfro yr oedd y cynnydd mwyaf (1.4%)

**Llwyth achosion CTRS yn ôl gwerth y dyfarniad**

Yn dibynnu ar eu hamgylchiadau, gall aelwydydd sy'n cael gostyngiad yng Nghymru fod â hawl i gael naill ai ddyfarniad Cynllun Gostyngiadau llawn pan fo eu hatebolrwydd i dalu'r dreth gyngor yn gostwng i sero, neu ddyfarniad rhannol pan fo rhwymedigaeth arnynt o hyd i dalu rhan o'u bil treth gyngor.

Yng Nghymru ym mis Mawrth 2025, cafodd 84.3% (216,275) o aelwydydd sy'n cael gostyngiad ddyfarniad llawn ac nid oeddent yn atebol i dalu unrhyw dreth gyngor. Ar draws awdurdodau lleol mae hyn yn amrywio o 76.4% o aelwydydd sy'n cael gostyngiad yn Sir Fynwy i 88.6% o aelwydydd sy'n cael gostyngiad yng Nghasnewydd.

**Tabl 7: Canran yr aelwydydd sy'n cael gostyngiad yn y dreth gyngor a gafodd ddyfarniad llawn ym mis Mawrth 2025**

| | Cyfanswm nifer y dyfarniadau | Dyfarniad CTR llawn | % |
|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 5,366 | 4,351 | 81.1 |
| Gwynedd | 7,992 | 6,564 | 82.1 |
| Conwy | 9,564 | 7,806 | 81.6 |
| Sir Ddinbych | 8,742 | 7,240 | 82.8 |
| Sir y Fflint | 10,137 | 8,126 | 80.2 |
| Wrecsam | 10,828 | 8,785 | 81.1 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Powys | 9,128 | 7,227 | 79.2 |
| Ceredigion | 5,161 | 4,119 | 79.8 |
| Sir Benfro | 9,070 | 7,620 | 84.0 |
| Sir Gaerfyrddin | 15,206 | 12,760 | 83.9 |
| Abertawe | 20,936 | 18,199 | 86.9 |
| Castell-nedd Port Talbot | 15,382 | 13,101 | 85.2 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 12,130 | 10,005 | 82.5 |
| Bro Morgannwg | 8,937 | 7,385 | 82.6 |
| Rhondda Cynon Taf | 23,168 | 20,182 | 87.1 |
| Merthyr Tudful | 5,791 | 5,014 | 86.6 |
| Caerffili | 15,992 | 13,960 | 87.3 |
| Blaenau Gwent | 8,201 | 6,923 | 84.4 |
| Torfaen | 9,237 | 7,552 | 81.8 |
| Sir Fynwy | 5,398 | 4,124 | 76.4 |
| Casnewydd | 12,192 | 10,802 | 88.6 |
| Caerdydd | 27,931 | 24,430 | 87.5 |
| **Cymru** | **256,489** | **216,275** | **84.3** |

Ffynhonnell: Datatank Connect

**Llwyth achosion Cynllun Gostyngiadau yn ôl statws asesu**


Os yw aelwyd yn cael Cymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith yn Seiliedig ar Incwm (JSA), Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn Seiliedig ar Incwm (ESA) neu Gredyd Pensiwn (Credyd Gwarant), cyfeirir ati fel ‘achos wedi’i basbortio’. Mae hyn oherwydd y bydd ganddynt hawl i gael cymorth o 100% (llai unrhyw ddidyniadau perthnasol) pan asesir ar gyfer y Cynllun Gostyngiadau.

Os nad yw aelwyd yn cael unrhyw un o'r budd-daliadau hyn, neu os yw'n cael Credyd Cynhwysol, cyfeirir ati fel ‘achos heb ei basbortio’.

Mae Ffigur 2 yn nodi cyfran yr aelwydydd sy’n gymwys ar gyfer y Cynllun Gostyngiadau yn ôl statws asesu ers mis Mawrth 2019 ac mae'n dangos:

- Achosion wedi’u pasbortio oedd 35.4% o lwyth achosion y Cynllun Gostyngiadau ym mis Mawrth 2025. Mae hyn yn cymharu â 61% ym mis Mawrth 2019.
- Roedd achosion safonol heb eu pasbortio yn cyfrif am 15.5% o achosion y Cynllun Gostyngiadau ym mis Mawrth 2025, o'i gymharu â 27.2% ym mis Mawrth 2019.
- Aelwydydd a oedd yn cael Credyd Cynhwysol oedd 49.1% o lwyth achosion cyffredinol gostyngiadau yn y dreth gyngor ym mis Mawrth 2025 o'i gymharu ag 11.7% yn 2019.

Ffigur 2: Cyfran yr aelwydydd CTR yn ôl statws, Mawrth 2019 i Fawrth 2025




Wrth i'r broses o gyflwyno Credyd Cynhwysol barhau, bydd disgwyl i gyfran yr achosion wedi'u pasbortio ac achosion safonol heb eu pasbortio barhau i ostwng, tra bydd disgwyl i gyfran yr achosion Credyd Cynhwysol barhau i gynyddu.
Mae tabl 8 yn dangos cyfran yr aelwydydd CTRS yn ôl statws ar gyfer pob awdurdod lleol ym mis Mawrth 2024. Mae'n dangos y canlynol:

- Yng Nghaerdydd mae bron i 55% o aelwydydd CTR yn cael Credyd Cynhwysol, gyda 33% o achosion yn cael budd-daliadau wedi'u pasbortio.

- I'r gwrthwyneb, yn Ynys Môn, mae bron 38% o aelwydydd CTR yn dal i gael budd-daliadau wedi'u pasbortio gyda dim ond 42% yn cael Credyd Cynhwysol.

**Tabl 8: Canran aelwydydd CTR yn ôl statws asesu, mis Mawrth 2025**

| **Awdurdod lleol** | **Heb eu pasbortio** | **Wedi'u pasbortio** | **Credyd Cynhwysol** |
|---|---|---|---|
| Caerdydd | 12.2% | 33.1% | 54.6% |
| Casnewydd | 12.3% | 34.7% | 53.0% |
| Wrecsam | 16.8% | 30.4% | 52.8% |
| Torfaen | 15.4% | 32.1% | 52.5% |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Merthyr Tudful | 13.8% | 34.3% | 51.9% |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 14.4% | 34.1% | 51.6% |
| Castell-nedd Port Talbot | 14.8% | 34.2% | 51.0% |
| Abertawe | 13.2% | 37.0% | 49.8% |
| Rhondda Cynon Taf | 14.8% | 35.7% | 49.5% |
| Bro Morgannwg | 17.1% | 34.7% | 48.3% |
| Blaenau Gwent | 17.8% | 34.2% | 48.0% |
| Sir Gaerfyrddin | 16.4% | 36.4% | 47.2% |
| Sir Ddinbych | 16.8% | 36.4% | 46.7% |
| Ceredigion | 15.1% | 38.2% | 46.6% |
| Sir y Fflint | 20.4% | 33.0% | 46.6% |
| Sir Fynwy | 18.1% | 35.6% | 46.3% |
| Powys | 18.5% | 35.5% | 46.0% |
| Conwy | 16.4% | 37.8% | 45.8% |
| Caerffili | 15.6% | 39.2% | 45.2% |
| Sir Benfro | 17.1% | 37.8% | 45.0% |
| Gwynedd | 17.6% | 39.9% | 42.4% |
| Ynys Môn | 19.9% | 38.1% | 42.0% |


Ffynhonnell: Datatank Connect

**Newidiadau i’r llwyth achosion yn ôl statws incwm**

Yn ffigur 3 gwelir y newid mewn llwyth achosion yn ôl statws incwm rhwng Mawrth 2019 a Mawrth 2025. Mae’n dangos y canlynol:

- Mae achosion wedi’u pasbortio (JSA, ESA, Cymhorthdal Incwm a Chredyd Pensiwn) wedi gostwng 79,595 ers 2019.
- Bu gostyngiad o 36,297 (48%) yn nifer yr achosion safonol heb eu pasbortio.
- I'r gwrthwyneb, 125,952 oedd nifer yr achosion Credyd Cynhwysol ym mis Mawrth 2025, o'i gymharu â 32,773 ym mis Mawrth 2019, sef cynnydd o 284%.

**Ffigur 3: Newidiadau i’r llwyth achosion yn ôl statws incwm, Mawrth 2019 i Fawrth 2025**




Y budd-daliadau pasbortio mwyaf cyffredin oedd ESA a Chredyd Pensiwn a oedd yn cyfrif am 35% o'r holl achosion CTR ledled Cymru.

Mae Tabl A3 yn Atodiad A yn rhoi'r ffigurau ar gyfer y llwyth achosion yn ôl statws incwm ac awdurdod lleol ar gyfer Mawrth 2025.

**Effaith Credyd Cynhwysol ar Gynllun Gostyngiadau’r Dreth Gyngor**

Ers mis Rhagfyr 2024 mae Credyd Cynhwysol wedi disodli'r chwe budd-dal prawf modd oedran gweithio canlynol: Lwfans Ceisio Gwaith yn Seiliedig ar Incwm (JSA), Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn Seiliedig ar Incwm (ESA), Cymhorthdal Incwm, Budd-dal Tai, Credyd Treth Plant a Chredyd Treth Gwaith.

Rhaid i aelwydydd sy’n derbyn Credyd Cynhwysol wneud cais ar wahân am CTR. Mae hyn yn wahanol i’r rhai a allai fod wedi cael eu hasesu o'r blaen ar gyfer CTR fel rhan o’r broses o gael eu budd-daliadau pasbortio. Yn yr achosion hyn, nid oedd gofyniad i aelwydydd cymwys fod yn rhagweithiol o ran gwneud cais am CTR.


Mae tystiolaeth anecdotaidd yn awgrymu bod y newid hwn yn y dull gweithredu yn effeithio ar y llwyth achosion cyffredinol ar gyfer CTRS yng Nghymru, wrth i aelwydydd a aeth drosodd i’r system Credyd Cynhwysol adael y system CTRS oherwydd diffyg ymwybyddiaeth o'r angen i wneud cais ar wahân gyda'u hawdurdod lleol. Mae Credyd Cynhwysol yn effeithio hefyd ar gymhwysedd aelwydydd i gael CTR. Er enghraifft, os oes gan aelwyd incwm uwch o dan Gredyd Cynhwysol o’i gymharu â’r incwm y byddai wedi'i gael o dan fudd-daliadau etifeddol, efallai y bydd yn gymwys i gael CTR llai neu efallai na fydd yn bodloni’r meini prawf o gwbl ar gyfer CTR.

Comisiynodd Llywodraeth Cymru asesiad manwl gynt o effaith Credyd Cynhwysol ar CTRS yng Nghymru. Cyhoeddwyd yr Adroddiad Terfynol gan Policy in Practice ym mis Gorffennaf 2020.

Dangosodd y casgliadau fod Credyd Cynhwysol yn newid sylweddol i’r system cymorth lles ar gyfer aelwydydd incwm isel. Darparodd yr adroddiad dystiolaeth bod symud i Gredyd Cynhwysol yn cael effaith ar wydnwch aelwydydd a lefelau dyled preswylwyr incwm isel yng Nghymru.

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i wneud popeth o fewn ei gallu i godi ymwybyddiaeth o CTRS a darparu cymorth i aelwydydd incwm isel. Gwnaethom ddeddfu i'r awdurdodau lleol wneud mwy o ddefnydd o ddata Credyd Cynhwysol yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) o fis Ebrill 2025. Mae hyn yn caniatáu i'r awdurdodau ddatblygu prosesau cofrestru awtomatig i asesu cymhwysedd ar gyfer CTRS a dyfarniadau CTRS. Mae hyn yn golygu na fyddai rhaid i ymgeisydd wneud cais ar wahân, na darparu gwybodaeth ychwanegol, i awdurdod lleol. Rhaid i'r ymgeisydd nodi (drwy dicio blwch yn ystod ei gais am Gredyd Cynhwysol gyda DWP) ei fod yn dalwr y dreth gyngor ac yn dymuno gwneud cais am ostyngiad, i alluogi'r data am y person i gael ei rannu gyda'r awdurdod lleol.

**Llwyth achosion CTRS yn ôl math o deulu**




- Y categori mwyaf yw aelwydydd un oedolyn heb ddibynyddion. Roedd yr aelwydydd hyn (164,213) yn cyfrif am 64.0% o gyfanswm yr achosion ym mis Mawrth 2025.
- Mae nifer yr aelwydydd rhiant sengl (45,173) yn cyfrif am 17.6% o gyfanswm yr achosion ym mis Mawrth 2025.
- Roedd nifer yr aelwydydd sy'n cynnwys cwpl heb ddibynyddion (32,668) yn cyfrif am 12.7% o gyfanswm yr achosion ym mis Mawrth 2025.
- Mae nifer yr aelwydydd sy'n cynnwys cwpl â phlant dibynno (14,4350) ym mis Mawrth 2025, yn cyfrif am 5.6% o gyfanswm yr achosion.


Mae Tabl A4 yn Atodiad A yn rhoi’r ffigurau ar gyfer y llwyth achosion gwirioneddol yn ôl math o deulu ac awdurdod lleol ar gyfer mis Mawrth 2025.

## Llwyth achosion CTRS yn ôl band y dreth gyngor

Rhoddir pob annedd drethadwy mewn band treth gyngor yn dibynnu ar werth yr eiddo ar y farchnad ar 1 Ebrill 2003. Eiddo band A sydd â’r cyfraddau isaf o'r dreth gyngor ac eiddo band I sydd â’r cyfraddau uchaf (mae Band A- yn adlewyrchu cyfradd ostyngol ar gyfer eiddo a addaswyd ar gyfer pobl anabl).

Yng Nghymru, roedd 85.3% o'r aelwydydd a oedd yn cael CTR yn byw mewn eiddo ym mandiau A- i C ym mis Mawrth 2025. Gellir priodoli hyn yn rhannol i ddosbarthiad cyffredinol anheddau ar draws bandiau'r dreth gyngor yng Nghymru, gyda bron i dri chwarter yr holl anheddau trethadwy yng Nghymru ym mandiau A i D.

**Ffigur 5: Canran cyfanswm y llwyth achosion yn ôl band y dreth gyngor, Mawrth 2025**



Yn Nhabl 9 gwelir canran llwyth achosion cyffredinol pob awdurdod lleol yn ôl bandiau'r dreth gyngor A i C, D ac E i I. Mae'n dangos y canlynol:

- Ym Mlaenau Gwent, roedd 98.1% o aelwydydd CTR mewn eiddo bandiau A i C, gyda 51 o aelwydydd (0.6%) yn unig ym mandiau E i I.

- I'r gwrthwyneb, yn Sir Fynwy, roedd 62.1% o aelwydydd sy'n cael CTR mewn eiddo bandiau A i C, a 14.7% ym mandiau E i I.


**Tabl 9: Canran y cyfanswm achosion yn ôl band y dreth gyngor, Mawrth 2025**

| Awdurdod lleol | % ym Mandiau A i C | % ym Mand D | % ym Mandiau E i I |
|---|---|---|---|
| Blaenau Gwent | 98.1 | 1.2 | 0.6 |
| Merthyr Tudful | 97.6 | 1.6 | 0.8 |
| Rhondda Cynon Taf | 96.1 | 2.5 | 1.5 |
| Castell-nedd Port Talbot | 95.7 | 2.8 | 1.5 |
| Torfaen | 94.4 | 3.3 | 2.3 |
| Caerffili | 94.0 | 4.2 | 1.8 |
| Abertawe | 88.8 | 7.1 | 4.1 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 88.0 | 7.5 | 4.5 |
| Casnewydd | 87.8 | 7.9 | 4.3 |
| Gwynedd | 87.3 | 7.2 | 5.5 |
| Wrecsam | 86.7 | 7.2 | 6.1 |
| Sir Gaerfyrddin | 85.6 | 7.5 | 6.9 |
| Sir Ddinbych | 85.0 | 8.9 | 6.0 |
| Ynys Môn | 84.7 | 8.4 | 6.8 |
| Sir y Fflint | 82.4 | 9.4 | 8.2 |
| Sir Benfro | 81.5 | 10.2 | 8.3 |
| Conwy | 81.0 | 11.7 | 7.3 |
| Powys | 76.6 | 10.1 | 13.3 |
| Bro Morgannwg | 71.5 | 16.6 | 11.9 |
| Ceredigion | 70.5 | 15.5 | 14.0 |
| Caerdydd | 67.7 | 19.8 | 12.5 |
| Sir Fynwy | 62.1 | 23.2 | 14.7 |

Ffynhonnell: Datatank Connect

Mae Ffigur 6 yn dangos cyfran yr holl anheddau trethadwy sy'n cael CTR yn ôl band y dreth gyngor. Band A sydd â'r gyfran uchaf o anheddau sy'n cael CTR, sef 40.2%. Bandiau E i I sydd â'r gyfran isaf o anheddau sy'n cael CTR, sef 4.1%.

Ffigur 6: Cyfran yr aelwydydd CTR yn ôl band y dreth gyngor, Mawrth 2025




Mae Tabl A5 yn Atodiad A yn rhoi'r ffigurau ar gyfer cyfran yr aelwydydd sy'n cael CTR yn ôl awdurdod lleol a band y dreth gyngor ym mis Mawrth 2025.

## Meysydd disgresiwn lleol

O dan Reoliadau CTRS, rhaid i bob awdurdod lleol yng Nghymru fabwysiadu ei gynllun ei hun ar gyfer y flwyddyn ariannol sydd i ddod erbyn 31 Ionawr. Mae'r cynlluniau hyn, yn seiliedig ar y gofynion cenedlaethol, yn cynnwys meysydd o ddisgresiwn lleol er mwyn i'r awdurdodau allu cymryd anghenion a blaenoriaethau eu hardal leol i ystyriaeth. Mae pob awdurdod wedi mabwysiadu cynllun, ond os byddai unrhyw un ohonynt yn methu â gwneud hynny, byddai'r cynllun cenedlaethol diofyn yn cael ei orfodi i sicrhau bod aelwydydd cymwys yn dal i gael cymorth ariannol i gyflawni eu hatebolrwydd i dalu'r dreth gyngor.

Dyma’r meysydd disgresiwn lleol lle gall awdurdod lleol ddewis cyflwyno darpariaethau mwy hael na’r gofynion sylfaenol yn y rheoliadau:

- *Cyfnod gostyngiad estynedig* – gall awdurdodau lleol gynyddu’r cyfnod lle bydd gan ymgeiswyr hawl i barhau i gael gostyngiad mewn rhai amgylchiadau, y tu hwnt i’r cyfnod safonol o bedair wythnos.

- *Ôl-ddyddio ceisiadau* – gall awdurdodau lleol ôl-ddyddio ceisiadau am ostyngiadau y tu hwnt i’r cyfnod safonol o dri mis.

- *Pensiwn Anabledd Rhyfel a Phensiwn Rhyfel Gweddw* – mae'r awdurdodau lleol yn gallu diystyru mwy na’r swm statudol o £10 a gafwyd mewn perthynas â’r pensiynau hyn wrth gyfrifo incwm.

Ceir manylion cynllun pob awdurdod lleol ar eu gwefannau unigol.

## Apeliadau

### Tribiwnlys Prisio Cymru

Ers i CTRS gael ei gyflwyno ar 1 Ebrill 2013, Tribiwnlys Prisio Cymru sydd wedi bod yn gyfrifol am wrando ar apeliadau sy’n deillio o’r penderfyniadau ar CTRS. Caiff unigolion sy’n talu’r dreth gyngor gyflwyno apêl, dim ond ar ôl codi cwyn yn uniongyrchol gyda'u hawdurdod lleol.

Mae Tabl 6 yn dangos canlyniad apeliadau CTRS a gyflwynwyd i Dribiwnlys Prisio Cymru yn y flwyddyn ariannol o fis Ebrill 2024 i fis Mawrth 2025. Daeth 12 apêl i law a chafodd 21 eu dwyn ymlaen o'r flwyddyn ariannol flaenorol.

Cafodd wyth achos eu setlo cyn gwrandawiad panel y tribiwnlys. Fel arfer, mae canlyniad yr achosion hyn yn mynd o blaid yr apelydd am fod awdurdod wedi ailystyried ei benderfyniad cychwynnol ar ôl cael tystiolaeth ychwanegol ynghylch hawliad yr apelydd. Ar ddiwedd mis Mawrth 2025, roedd pum achos heb eu cwblhau eto.

**Tabl 10: Apeliadau i Dribiwnlys Prisio Cymru rhwng mis Ebrill 2024 a mis Mawrth 202**

| Wedi dod i law | Wedi'u dwyn ymlaen o'r cyfnod blaenorol | Wedi’u setlo cyn gwrandawiad y tribiwnlys | Wedi’u penderfynu gan y tribiwnlys | Dileu | Wedi’u dwyn ymlaen i'r cyfnod nesaf |
|---|---|---|---|---|---|
| 12 | 21 | 8 | 20 | 0 | 5 |